**Ysgol Gyfun Gwent Is Coed: cod ymddygiad ar gyfer cefnogwyr**

Mae'r ddogfen hon wedi'i haddasu o god ymddygiad Undeb Rygbi Cymru ar gyfer cefnogwyr.

1. Rhaid i gefnogwyr gynnal gwerthoedd yr ysgol, a dangos y safonau uchaf o ymddygiad da bob amser.
2. Ni ddylai cefnogwyr fynd ar y maes chwarae cyn, yn ystod neu'n syth ar ôl gêm.
3. Rhaid i gefnogwyr beidio â thaflu unrhywbeth i'r maes chwarae ar unrhyw adeg.
4. Rhaid i gefnogwyr beidio ag ymddwyn na goddef iaith neu ymddygiad sarhaus tuag at swyddogion y gêm, chwaraewyr, athrawon, hyfforddwyr, rheolwyr, swyddogion a chefnogwyr eraill.
5. Ni ddylai cefnogwyr gymryd rhan na goddef cam-driniaeth corfforol tuag at swyddogion y gêm, chwaraewyr, athrawon, hyfforddwyr, rheolwyr tîm, swyddogion a gwylwyr eraill.
6. Rhaid i gefnogwyr beidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n debygol o ddychryn, tramgwyddo, sarhau, bychanu neu wahaniaethu yn erbyn unrhyw berson arall ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol), crefydd neu cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.
7. Rhaid i gefnogwyr beidio â cham-drin dyfarnwyr neu swyddogion gemau yn eiriol nac yn gorfforol cyn, yn ystod neu ar ôl gêm. Mae cyfraniad y dyfarnwr a swyddogion gemau yn hollbwysig. Heb ddyfarnwyr ni ellir cynnal y gêm.
8. Ar ôl gêm, rhaid i gefnogwyr barchu chwaraewyr a swyddogion y ddau dîm, ac ni ddylent, dan unrhyw amgylchiadau fynd atyn nhw mewn unrhyw ffordd heblaw mewn ffordd cyfeillgar.
9. Rhaid i gefnogwyr beidio â mynd at ddyfarnwr nac unrhyw swyddog gêm arall ar ôl y gêm i drafod digwyddiadau'r gêm.